Adroddiad Cyfarfod 14:10:15

Eidalwr yn Eryri – Ffotograffiaeth Pierino Algieri

Canwyd can y mudiad ac yna croesawyd pawb gan y Llywydd Mair Read, mynegwyd balchder o weld aelodau newydd. Dosbarthwyd y fwydlen ar gyfer ein cinio 'Dolig. Gofynwyd i bawb nodi ei dewis o fwyd gan ddod a'i dewis a £20 mewn amlen wedi ei selio i'r trysorydd yn ein cyfarfod nesaf. Danfonwyd cofion at Elisabeth Blaenparc, yn falch clywed fod ei gwr John yn well ac wedi ei drosglwyddo o ysbyty Gwynedd i Eryri. Yn falch cylwed fod Richard gwr Mary Wyn wedi gorffen ei driniaeth ac yn gwella a dymunwyd yn dda i Robin, gwr Alis.

Croesawyd ein gwr gwadd, Pierino Algieri atom, ffotograffyd ac awdur 'Eidalwr yn Eryri'

Dangosodd gasgliad o luniau i gerddoriaeth fu'n eu creu dros gyfnod o 25 mlynedd.

Roedd ganddo dair thema, Dyffryn Conwy, Arfordir Gogledd Cymru a Mynyddoedd Eryri. Swynwyd pawb gan luniau lliwgar a dynnwyd ar wahanol adegau o'r dydd a'r flwyddyn.

Daeth a dewis o gardiau a chalenderau i'w gwerthu.

Darparwyd paned gan aelodau'r gangen ac enillwyd y raffl gan Ann Lewis.

Casglwyd enwau dau dim ar gyfer y cwis cenedlaethol.

Rhannodd y llywydd wybodaeth am waith y pwyllgor rhanbarth a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cynhelir diwrnod celf yn fuan, mae yna gystadlu yn y ffair aeaf, y testun ar gyfer y flwyddyn nesaf yw 'Portmeirion'. Trefnir taith i Birmingham ddechrau Tachwedd ac i Harrogate ddiwedd y mis. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch a'r llywydd er cael mwy o wybodaeth.

Mae angen gwirfoddolwyr i siarad gyda dysgwyr Cymraeg brynhawn Sadwrn Tachwedd 14eg ym Mangor.

Yn y noson i flasu gwin gyda MarcusRobinson byddwn yn gwadd canghennau Arfon atom, gobeithio gwneud elw sylweddol i ymchwil y

galon. Merched y Wawr wedi casglu £20,000 yn barod. Yn dal i gasglu ategolion o bob math.

Angen bod yn ymwybodol i'r bygythiad sy' ar droed i israddio 'r uned mamolaeth yn ysbyty Gwynedd. Annog pawb i edrych ar yr adroddiad ar y we gan gymeryd cyfle i fynegu barn, linc o wefan mantell Gwynedd (http://www.mantellgwynedd.com/cymraeg/gwaiedo.html)

Bydd ein cyfarfod mis nesaf ar Dachwedd 11eg pan fyddwn yn croesawu'r awdures Gwen James atom.